# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Yr Hen Rheithordy**

**Amlwch**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Yr Hen Rheithordy

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cydweithfa Cartrefi Cymru Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Tachwedd 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r cartref gofal hwn yn darparu gwasanaethau gofal byrdymor a gofal seibiant i oedolion sydd ag anableddau dysgu. Mae darparwr y gwasanaeth wedi cymryd camau gweithredu yn dilyn yr arolygiad blaenorol i ymdrin â'r meysydd o'r gwasanaeth yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar fyrder. Gwnaed gwelliannau i'r systemau sydd ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. O ganlyniad, mae darparwr y gwasanaeth mewn gwell sefyllfa i nodi meysydd lle mae angen rhoi sylw i ansawdd neu ddiogelwch y gwasanaeth, ac i ymateb mewn modd amserol. Mae'r prosesau ar gyfer rheoli meddyginiaethau wedi gwella, sy'n golygu bod trefniadau cadarn bellach ar waith. Gwnaed gwelliannau i'r hyfforddiant y mae'r gweithwyr gofal yn ei gael i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r amgylchedd wedi gwella ers yr arolygiad blaenorol. Mae'r cartref yn lân, yn gyfforddus ac yn ddiogel. Ymdriniwyd â'r meysydd o'r amgylchedd lle roedd angen gwaith atgyweirio, sy'n golygu bod y bobl yn cael eu cefnogi ar safle a gaiff ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r mesurau iechyd a diogelwch a'r arferion rheoli heintiau hefyd wedi gwella sy'n gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn cynnwys gwybodaeth gyflawn am anghenion gofal a chymorth y bobl a sut y dylid eu diwallu. Yn ogystal, nid oes asesiadau risg bob amser ar waith, lle y bo'n ofynnol, i gofnodi sut y caiff risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl eu rheoli. Mae hyn yn faes o'r gwasanaeth y mae angen ei wella o hyd.

## Llesiant

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Gwelsom fod y gweithwyr gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn modd cyfeillgar a charedig, gan ddefnyddio dewis ddulliau cyfathrebu'r bobl. Gan fod rhai o'r gweithwyr gofal wedi gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn, maent wedi datblygu dealltwriaeth fanwl o hoff bethau a chas bethau'r bobl, y drefn ddyddiol a ffefrir ganddynt a beth sy'n bwysig i bob unigolyn. O ganlyniad, gall y bobl teimlo eu bod yn cael eu parchu fel unigolion. Caiff y bobl eu cefnogi yn eu dewis iaith. Gwelsom fod rhai o'r gweithwyr gofal yn ddwyieithog, sy'n golygu y gallant ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg i'r bobl sy'n dymuno ei gael.

Nid yw'r ddogfennaeth gofal bob amser yn cofnodi anghenion gofal a chymorth pob unigolyn a sut y dylid rheoli'r risgiau i'w hiechyd. Cafodd hyn ei nodi fel maes y mae angen i'r gwasanaeth ei wella yn ystod yr arolygiad blaenorol. Er bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, mae angen rhoi mwy o sylw i'r maes hwn o'r gwasanaeth o hyd. Dylid cynnwys anghenion gofal y bobl yn eu cynlluniau personol er mwyn sicrhau y gall y gweithwyr gofal weld gwybodaeth ysgrifenedig sy'n nodi sut y dylid helpu pob unigolyn i gyflawni ei ganlyniadau.

Caiff iechyd corfforol ac iechyd emosiynol eu hybu. Cyn pob arhosiad yn y gwasanaeth, mae'r rheolwr yn cysylltu â phob unigolyn a'i gynrychiolwyr i gael gwybod a fu unrhyw newidiadau i'w iechyd ers ei arhosiad blaenorol. Caiff meddyginiaethau eu storio a'u rhoi'n ddiogel, sy'n helpu'r bobl i fod mor iach ag y gallant fod. Mae mesurau rheoli heintiau'r gwasanaeth yn dda, sydd hefyd yn amddiffyn iechyd y bobl.

Mae'r amgylchedd yn addas, mewn cyflwr da, ac yn lân, sy'n helpu i roi ymdeimlad cadarnhaol o lesiant i'r bobl. Rhoddir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n gyfforddus ac yn gartrefol, sy'n galluogi'r bobl i deimlo eu bod yn perthyn. Cymerir camau gweithredu mewn ymateb i ardaloedd o'r adeilad y mae angen rhoi sylw iddynt. Mae hyn yn sicrhau y caiff yr amgylchedd ei gynnal a'i gadw i safon uchel ac yn helpu'r bobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae gardd hygyrch ar gael y tu allan i'r bobl er mwyn iddynt allu ymgysylltu â natur, os byddant am wneud hynny, a manteisio ar yr effeithiau cadarnhaol y gall hyn eu cael ar eu llesiant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, a chaiff unrhyw risgiau a nodir eu rheoli.

## Gofal a Chymorth

Caiff y cynlluniau personol eu llunio ar y cyd â’r bobl a'u cynrychiolwyr, a chaiff eu safbwyntiau am y ffordd yr hoffent gael eu cefnogi eu cofnodi a'u parchu. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd cynlluniau personol y bobl yn cael eu diweddaru i adlewyrchu newidiadau o ran eu hanghenion gofal a chymorth. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod gwelliannau wedi cael eu gwneud, ond mae angen cymryd camau bellach. Mae'r cofnodion yn dangos bod anghenion y bobl yn hysbys ond nid yw'r cynlluniau personol bob amser yn nodi sut y dylid eu diwallu. Mae hyn yn golygu nad oes gwybodaeth ysgrifenedig fanwl bob amser ar gael i'r gweithwyr gofal i nodi sut y dylid cefnogi pob unigolyn. Nid oes asesiadau risg bob amser ar waith i nodi sut y dylid rheoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl. Mae hyn yn golygu na all y bobl fod yn sicr bod mesurau bob amser ar waith i leihau'r risgiau posibl. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae systemau diogel ar waith i reoli meddyginiaethau. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer meddyginiaethau yn ddiogel a bod angen cymryd camau brys. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd ac mae'r arferion sy'n gysylltiedig â meddyginiaethau wedi gwella. Mae gweithdrefnau ar waith i dderbyn meddyginiaethau i mewn i'r gwasanaeth a chânt eu storio'n ddiogel. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar sut i roi meddyginiaethau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodir. Mae hyn yn helpu'r bobl i reoli eu cyflyrau iechyd hysbys ac i gynnal eu hiechyd corfforol a'u hiechyd meddwl.

Rhoddir arferion rheoli heintiau effeithiol ar waith sy'n amddiffyn iechyd y bobl. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom fod yr arferion rheoli heintiau yn wael ac roedd angen gweithredu ar fyrder. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd ac mae'r trefniadau sydd ar waith i reoli heintiau wedi gwella'n sylweddol. Gwnaethom gerdded o gwmpas y cartref gofal a gwelsom fod pob ardal yn lân. Mae'r ddogfennaeth yn dangos bod rhaglenni glanhau ar waith i sicrhau y caiff safonau hylendid eu cynnal a bod systemau ar waith i fonitro lefelau glendid. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael gofal mewn amgylchedd glân a bod y risgiau sy'n gysylltiedig â rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n dda a'u lleihau cymaint â phosibl.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac maent yn gallu dangos dealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn y bobl rhag niwed. Mae polisïau chwythu'r chwiban a diogelu ar waith, a rhoddir gwybod i'r awdurdod lleol am achosion pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd diogel. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd risgiau yn yr amgylchedd bob amser yn cael eu nodi a oedd yn golygu bod y bobl yn wynebu risg o niwed. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd sydd wedi gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Wrth i ni gerdded o amgylch y cartref gofal, gwelsom fod eitemau o ddodrefn trwm bellach wedi'u hatodi'n sownd wrth y waliau, fel nad oes modd i unigolion y mae risg y byddant yn cwympo eu tynnu drosodd. Mae'r rheiddiaduron wedi cael eu gorchuddio'n addas sy'n amddiffyn y bobl rhag llosgi. Mae paneli amgylchynol newydd wedi cael eu gosod yn ystafell y gawod a gosodwyd rheilen newydd wrth ymyl y toiled. Mae thermomedrau yn cael eu defnyddio i wirio tymheredd y dŵr cyn i unrhyw un ei ddefnyddio. Mae hyn yn golygu bod iechyd a diogelwch y bobl yn cael eu hamddiffyn yn well yn yr amgylchedd.

Mae lefelau glendid y gwasanaeth wedi gwella'n sylweddol a chymerir camau i ymateb i waith cynnal a chadw gofynnol mewn modd amserol. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom fod angen atgyweirio sawl un o fframiau'r ffenestri, neu fod angen gosod fframiau newydd. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y rhan fwyaf o fframiau'r ffenestri wedi cael eu hadnewyddu. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cynlluniau ar waith i adnewyddu fframiau'r ffenestri nad oeddent wedi cael eu hadnewyddu eto. Mae'r rhannau o'r cartref yr effeithiwyd arnynt yn flaenorol gan ddŵr glaw a ddaeth i mewn wedi cael eu hatgyweirio a'u paentio. Mae eitemau newydd o ddodrefn wedi cael eu rhoi ym mhob ystafell wely. Mae'r ystafelloedd gwely wedi cael eu haddurno â themâu gwahanol megis ‘Bywyd Gwyllt’, ‘Enfys’, ‘Traeth’ a ‘Botaneg’. Mae hyn wedi gwella cysur y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r gweithwyr gofal sy'n gweithio yno.

Caiff y cyfarpar a'r adeilad eu gwasanaethu'n rheolaidd. Mae trefniadau ar waith i gynnal profion larwm tân yn rheolaidd a chaiff y system larwm tân ei wasanaethu gan gwmni allanol. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant diogelwch tân a chynhelir ymarferion tân. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng ar gael i gofnodi'r cymorth sydd ei angen ar bob unigolyn i adael yr adeilad mewn argyfwng. Caiff cyfarpar megis teclynnau codi a'r lifft teithwyr eu gwasanaethu fel sy'n ofynnol, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau'n ddiogel i'r bobl eu defnyddio. Caiff dyfeisiau nwy a thrydanol eu gwasanaethu hefyd fel sy'n ofynnol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu'n ddiogel.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae prosesau sicrhau ansawdd gwell ar waith, gan gynnwys y ffaith bod y rheolwr yn bresennol yn amlach yn y gwasanaeth. Yn yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd y trefniadau a oedd ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol a bod angen cymryd camau ar fyrder. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd sydd wedi gwella ansawdd y gwasanaeth y mae'r bobl yn ei gael. Mae'r systemau archwilio a monitro wedi cael eu gwella er mwyn sicrhau eu bod yn fwy rhagweithiol wrth nodi unrhyw feysydd o'r gwasanaeth y mae angen sylw arnynt. Yn dilyn yr arolygiad blaenorol, gwnaed newidiadau i'r trefniadau rheoli yn y gwasanaeth. Mae'r newidiadau a wnaed wedi galluogi'r rheolwr, o dan arweiniad yr unigolyn cyfrifol, i ganolbwyntio ar gymryd camau i ymdrin â'r meysydd o'r gwasanaeth y nodwyd gan AGC bod angen rhoi sylw iddynt ar fyrder. Mae hyn wedi gwella'r canlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel ac maent yn cael yr hyfforddiant perthnasol. Mae'r dogfennau yn dangos bod gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn mwynhau eu rolau a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae rhai o'r gweithwyr gofal wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers sawl blwyddyn, sy'n golygu eu bod yn brofiadol ac yn gallu mentora gweithwyr gofal mwy newydd. Yn ystod yr arolygiad blaenorol, gwelsom nad oedd pob un o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant mewn perthynas ag anghenion y bobl yr oeddent yn eu cefnogi. Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod camau wedi cael eu cymryd a bod pob un o'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant addas. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gweithwyr gofal yn cael cyfarfodydd goruchwylio un i un â'r rheolwr o leiaf bob tri mis. Mae hyn hefyd wedi gwella yn dilyn yr arolygiad blaenorol. Caiff y cyfarfod goruchwylio ei ddefnyddio i drafod materion ymarfer ac i nodi unrhyw anghenion dysgu neu ddatblygu newydd. Mae'r gweithwyr gofal hefyd yn cael budd o gyfarfodydd tîm rheolaidd, sy'n cynnig y cyfle i rannu gwybodaeth ac i nodi ffyrdd o wella'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu. Mae'r bobl yn cyflawni canlyniadau gwell pan fyddant yn derbyn eu gofal gan weithwyr gofal sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn cael eu cefnogi'n dda.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r datganiad o ddiben yn disgrifio'r gwasanaeth y gellir ei ddarparu a sut y caiff ei ddarparu. Mae canllaw i'r gwasanaeth ar gael, sy'n cael ei gyflwyno ar ffurf lluniau ac mewn fformat hawdd ei ddeall. Mae'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth sy'n nodi sut y gall y bobl wneud cwyn am y gwasanaeth, os bydd angen iddynt wneud hynny. Dywedodd y rheolwr wrthym nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law yn ddiweddar.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 58 | Nid yw'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn gadarn. Sicrhau bod y cofnodion mewn perthynas â meddyginiaethau yn gyfredol. Sicrhau bod y protocolau sydd ar waith i alluogi'r bobl i gymryd eu meddyginiaethau eu hunain yn unol â pholisi meddyginiaeth darparwr y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 56 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod pob rhan o'r cartref gofal yn lân. Sicrhau bod y cartref gofal yn lân. | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| 44 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau bod pob rhan o'r cartref gofal yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac y caiff gwaith atgyweirio gofynnol ei gwblhau'n brydlon. | Cyflawnwyd |
| 8 | Nid yw'r systemau sydd ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn effeithiol ac nid ydynt yn nodi rhannau o'r gwasanaeth y mae angen eu gwella yn ddigonol. Adolygu'r trefniadau monitro sydd ar waith yn y gwasanaeth i sicrhau eu bod yn rhagweithiol wrth nodi rhannau o'r gwasanaeth nad ydynt yn gweithredu fel y dylent. | Cyflawnwyd |
| 57 | Nid yw darparwr y gwasanaeth wedi sicrhau y caiff risgiau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd eu nodi a'u rheoli cymaint â phosibl. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau y caiff iechyd a diogelwch y bobl eu hamddiffyn yn yr amgylchedd. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 15 | Nid yw cynlluniau personol y bobl yn nodi gwybodaeth gyfredol mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth. Dylai'r cynlluniau personol nodi gwybodaeth fanwl am anghenion gofal y bobl a sut y dylid eu cefnogi. Dylid sicrhau bod asesiadau risg ar waith i gofnodi risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl, a'r mesurau sydd ar waith i liniaru'r risgiau. | Heb Gyflawni |
| 36 | Gwelsom nad oedd y gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un bob tri mis, fel sy'n | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | ofynnol. Dylai'r gweithwyr gofal gael sesiynau goruchwylio un i un bob tri mis.  Gwelsom nad oedd y gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant arbenigol mor aml ag sy'n ofynnol. Dylai pob un o'r gweithwyr gofal gael hyfforddiant arbenigol i sicrhau eu bod yn darparu'r gofal cywir i'r bobl y maent yn eu cefnogi. | |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/07/2024